
# Ar 31 Mawrth 2024

## Mae Cronfa Bensiynau Clwyd wedi ymrwymo i wneud buddsoddiadau sy'n seiliedig ar leoedd. Dyma gronfeydd sy'n buddsoddi yng Nghymru neu'n cyfrannu at greu effaith cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol ar draws y DU.

- £217 miliwn wedi'i ymrwymo i fuddsoddiadau yn seiliedig ar leoedd (8.7% o werth Cronfa Bensiynau Clwyd)
- £60 miliwn wedi'i ymrwymo i gronfeydd sy'n buddsoddi yng Nghymru'n unig
- £115.5 miliwn wedi ei fuddsoddi'n bresennol mewn 204 ased ledled y DU
- O hyn, mae £27 miliwn wedi ei fuddsoddi mewn 24 ased ledled Cymru
- Y llynedd buddsoddwyd £19.7 miliwn yng Nghymru a £16 miliwn arall yng ngweddill y DU.

## Sut yr ydym yn buddsoddi (% y swm a fuddsoddwyd)




*Cyllid Busnesau Bach a Chanolig

## Sut mae ein Buddsoddiad yn Cefnogi Cymru a'r DU

- **73** busnes yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd trwy gyllid ecwiti neu ddyled, **20** yng Nghymru. **10** busnes newydd wedi cael cefnogaeth yn y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae'r busnesau hyn yn rhoi cyfrif am dros **15,280 o swyddi** gyda **8%** o swyddi yng Nghymru.
- O leiaf **1,380 o swyddi newydd** wedi eu creu ers buddsoddiad gydag **11%** mewn busnesau Cymreig.
- **15** busnes yn Gyflogwyr Cyflog Byw achrededig neu'n talu'r Cyflog Byw i bob gweithiwr, cynnydd o'r 12 busnes y llynedd.

- **20 ased tai** gan gynnwys
- **8** datblygiad tai yn cynnwys **2,540** o gartrefi i dros **6,300** o bobl. **26%** o gartrefi yn fforddiadwy. **174** o gartrefi wedi buddsoddi yn y flwyddyn ddiwethaf.
- **8** cartref byw â chymorth a chartrefi i'r henoed ar gyfer hyd at **338** o breswylwyr.
- **4** datblygiad yn darparu llety i bron i **1,700** o fyfyrwyr.

- **39 ased isadeiledd** gan gynnwys:
- **35** cyfleuster addysgol wedi'u caffael, gan gynnwys **2** ysgol AAA yn y flwyddyn ddiwethaf, **2,804** o leoedd ychwanegol i blant (79% lleoedd meithrin, 16% AAA, 5% lleoedd ysgol annibynnol).
- **3** cyfleuster iechyd a 1 cyfleuster dŵr a gwastraff


- **67** prosiect eiddo tirol (yn cael eu datblygu neu'n weithredol) a **6** yn fuddsoddiad newydd yn y flwyddyn ddiwethaf. Gan gynnwys:
- **36** prosiect eiddo tirol masnachol yn cefnogi man cyflogaeth i amcangyfrif o **7,440** o bobl (28% yn yr awdurdodau lleol mwyaf difreintiedig yn y DU).
- **31** ased eiddo tirol hamdden yn cefnogi **662** swydd cyflog byw barhaol a **109** swydd dymhorol, **16%** o asedau hamdden yng Nghlwyd.


- **£42.7 miliwn** wedi'i ymrwymo i ddatblygu prosiectau ynni glân yng Nghymru. Gweler yr astudiaeth achos.

# Ar 31 Mawrth 2024


## Ble'r ydym yn buddsoddi (% y swm a fuddsoddwyd)

Mae **27%** o bortffolio Effaith ac yn Seiliedig ar Leoedd y Gronfa wedi'i fuddsoddi yng Nghymru.





## Sut mae ein buddsoddiadau'n alinio â nodweddion buddsoddi'n seiliedig ar effaith a lleoedd




Mae'r strategaeth fuddsoddi yn ystyried anghenion LLEOEDD ac yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid lleol?

## Ein math o effaith

(% y swm a fuddsoddwyd)




Dosbarthiadau Effaith

- **Cyfrannu at Ddatrysiadau**
- **O fudd i fudd-ddeiliaid**
- **Osgoi Niwed**
- **Dim Data (gallai achosi niwed)**

Yn seiliedig ar 'The ABC of Impact', Impact Frontiers

# Astudiaeth Achos: Cefnogi Ymrwymiad Cymru i Sero Net

## Capital Dynamics CEI (Clwyd) LP

| | |
|---|---|
| **Asedau a Reolir (AUM)** | **£50 miliwn, £42.7 miliwn ohono wedi ei ymrwymo i dri phrosiect** |
| Cyfraniad Cronfa Bensiynau Clwyd | 100% |
| Enillion ariannol targed | 10%+ net IRR |
| Nod Effaith | Cyfrannu at liniaru newid hinsawdd trwy fuddsoddi'n uniongyrchol mewn prosiectau ynni adnewyddadwy carbon isel yng Nghymru |

Yn haf 2022, bu i Capital Dynamics greu partneriaeth gyda Chronfa Bensiynau Clwyd i ddarparu isadeiledd ynni glân yng Nghymru. Mae'r bartneriaeth yn caniatáu i Glwyd fuddsoddi'n uniongyrchol mewn cyfleoedd ynni adnewyddadwy a chyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dargedau sero net a thrawsnewid ynni, sy'n cyd-fynd â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Bu i Glwyd ofyn i Capital Dynamics weithio gyda nhw, o ystyried eu perthynas o dros 25 mlynedd a phrofiad Capital Dynamics yn y sector ynni glân. Mae £50 miliwn wedi ei ddyrannu gan Glwyd i fuddsoddi mewn pedwar i bump prosiectau ynni adnewyddadwy ar draws y sbectrwm datblygu, o ddatblygiad cam cynnar i weithredu asedau. Hyd yma, mae £42.7 miliwn wedi ei ymrwymo i dri phrosiect, £19.3 miliwn ohono wedi ei fuddsoddi.

**Home Farm**

Sector: Paneli solar ffotofoltaidd
Cam: Gweithredol
Ymrwymiad buddsoddi: £4.7 miliwn, 98% ohono wedi ei fuddsoddi

Clwyd wedi caffael Home Farm yn llwyr sef Fferm Solar 3MW i'r gorllewin o Gaerdydd yn Ne Cymru. Bu'n weithredol ac yn cynhyrchu incwm ers 2017 ac wedi ei chysylltu â safle bioamrywiaeth.



**Brynrhyd**

Sector: Paneli solar ffotofoltaidd
Cam: Adeiladu
Ymrwymiad buddsoddi: £28 miliwn, 42% ohono wedi ei fuddsoddi

Mae Brynrhyd yn safle solar 30MW ym Mhontarddulais, de orllewin Cymru. Defnyddir buddsoddiad Clwyd i gaffael y prosiect yn llwyr ac i adeiladu'r fferm solar. Amcangyfrifir y bydd y fferm solar yn cynhyrchu digon o drydan i bweru tua 10,000 o gartrefi bob blwyddyn, cyfrannu £3.5 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros i'r economi, ac ni fydd angen cymhorthdal llywodraeth, bydd 35 swydd yn cael eu cefnogi yn ystod y cam adeiladu. Mae Capital Dynamics wedi ymrwymo i ddarparu Cronfa Buddion Cymunedol o £53,000 a fwriedir i roi cymorth ariannol i fentrau lleol megis rhaglenni hyfforddiant ac addysg, gwella cynefinoedd amgylchedd ffisegol, cyfleusterau cymunedol ac isadeiledd effeithlonrwydd ynni, neu roi cymhorthdal i filiau pŵer cymunedol

**Bute**

Sector: Gwynt ar y tir
Cam: Datblygiad cam cynnar
Ymrwymiad buddsoddi: £10 miliwn, 29% ohono wedi ei fuddsoddi

Mae Bute Energy yn ddatblygwr parc gwynt ar y tir ac ynni solar gyda chenhadaeth i 'greu prosiectau ynni adnewyddadwy sy'n creu Cymru iachach, fwy cyfoethog". Amcangyfrifir y bydd y prosiect yn cynhyrchu digon o drydan i bweru tua 553,112 o gartrefi yn flynyddol. Mae buddsoddiad Clwyd ar ffurf benthyciad, y disgwylir iddo ariannu datblygiad 16 safle ledled Cymru. Gwnaed y buddsoddiad mewn partneriaeth â Chronfa Ynni Glân Partneriaeth Pensiwn Cymru, a reolir hefyd gan Capital Dynamics, gan olygu bod Clwyd yn cyd-fuddsoddi gyda chwe Chronfa Bensiynau arall o Gymru. Disgwylir y bydd 200 o swyddi'n cael eu cefnogi yn ystod y cam adeiladu. Mae Capital Dynamics yn bwriadu ariannu £7,500 fesul MW o wynt gweithredol a £1,000 fesul MW o brosiectau solar gweithredol o Bortffolio Bute i Gronfeydd Buddion Cymunedol.

# Ar 31 Mawrth 2024

## Portffolio Cronfa Bensiynau Clwyd yn seiliedig ar Effaith a Lleoedd

| Enw Rheolwr y Gronfa | Enw'r Gronfa | Ymrwymiad Cronfa Bensiynau Clwyd (£) | Cyfran Clwyd (% o'r cyfanswm a ymrwymwyd) | Portffolio Cronfa Bensiynau Clwud | Adroddwyd: Nodweddion PBII | Adroddwyd: Allbynnau | Adroddwyd: Dosbarthiad IMP |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| August Equity | AEP IV A LP | £8,000,000 | 3.6% | Ecwiti Preifat | 🔴 | 🟢 | 🟢 |
| August Equity | AEP V A LP | £8,000,000 | 2.6% | Ecwiti Preifat | 🔴 | 🟢 | 🟢 |
| Bridges Fund Management Limited | Bridges Property Alternatives Fund V LP (BPAF V) | £11,000,000 | 3.2% | Effaith | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| Bridges Fund Management Limited | Bridges Sustainable Growth Fund III LP (SGF III) | £5,000,000 | 4.0% | Effaith | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| Bridges Fund Management Limited | Bridges Property Alternatives Fund III LP (BPAF III) | £5,000,000 | 2.4% | Effaith | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| Bridges Fund Management Limited | Bridges Property Alternatives Fund IV LP (BPAF IV) | £8,000,000 | 3.6% | Effaith | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| Bridges Fund Management Limited | Bridges Sustainable Growth Fund IV(B) LP (SGF IV(B)) | £11,000,000 | 19.3% | Effaith | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| Bridges Fund Management Limited | Bridges Sustainable Growth FundIV LP (SGF IV) | £8,000,000 | 9.9% | Effaith | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| Capital Dynamics Ltd. | Capital Dynamics CEI (Clwyd), LP | £50,000,000 | 100.0% | Effaith | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| Darwin Alternative Investment Management | Darwin Leisure Property Fund | £10,000,000 | 4.4% | Eiddo | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| Darwin Alternative Investment Management | Darwin Leisure Development Fund | £8,000,000 | 3.8% | Eiddo | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| ECI Management Limited | ECI 11 LP | £8,000,000 | 1.0% | Ecwiti Preifat | 🟢 | 🔴 | 🔴 |
| ECI Management Limited | ECI 12 LP | £20,000,000 | 1.1% | Ecwiti Preifat | 🟢 | 🔴 | 🟢 |
| Foresight Group LLP | Foresight Regional Investment III LP | £12,000,000 | 14.2% | Effaith | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| Foresight Group LLP | Foresight Regional Investment LP | £12,000,000 | 20.7% | Effaith | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| FW Capital Limited | Management Succession (Wales) Limited Partnership | £10,000,000 | 40.0% | Effaith | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| Newcore Capital | Newcore Strategic Situations IV LP | £8,000,000 | 9.5% | Eiddo | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| Newcore Capital | Newcore Strategic Situations V LP | £15,000,000 | 8.0% | Eiddo | 🟢 | 🟢 | 🟢 |

### Allwedd

| Adroddwyd: Nodweddion PBII | Adroddwyd: Allbynnau | Adroddwyd: Dosbarthiad IMP |
|---|---|---|
| Dangos a yw'r rheolwr Cronfa wedi hunanasesu ac adrodd ar aliniad gyda nodweddion PBII (bodloni anghenion lleol, ymgysylltu â budd-ddeiliaid, bwriadoldeb, rheoli effaith) ar gyfer pob Cronfa. | Dangos a yw'r rheolwr Cronfa wedi nodi metrig allbynnau ar gyfer o leiaf un Gronfa. | Dangos a yw'r rheolwr Cronfa wedi hunanasesu ac adrodd ar fabwysiadu Fframwaith ABC Prosiect Rheoli Effaith gan TGE, sy'n nodi effaith asedau. |

🔴 Gwybodaeth heb ei chofnodi

🟢 Adrodd rhannol neu gyflawn

Hoffai Cronfa Bensiynau Clwyd a The Good Economy ddiolch i'r holl reolwyr cronfeydd sydd wedi cyfranogi yn Fframwaith Adrodd PBII.

PBII Reporting Framework © The Good Economy 2024